"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1883. [RHIF 24.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Gorchymyn y Brenin	169
Y Diwedd	172
Esgob Colenso	172
Bywyd yr Iesu	174
Melinau Gweddio	178
O arwain ni	180
Dybacco	181
Yr Esgobion yn Nhy yr Arglwyddi	186
Cyfarfodydd Blynyddol Undodiaid y Deheubarth	187
Annghydffurfiaeth yn Nghymru	188
Manion a Hanesion	190
Marwgofion	191

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1883. [RHIF. 24.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

GORCHYMYN Y BRENIN.

GORCHYMYNODD Brenin mawr a da unwaith i rai o'i ddeiliaid i fyned ar bererindod i wlad ddyeithr. Yr oedd wedi parotoi llong brydferth i'w dwyn yno, ac addawodd y buasai yn danfon cenadon atynt o bryd i bryd i wneyd ei ewyllys yn adnabyddus iddynt. Cawsant fod eu cartref newydd mor deg a phrydferth ag y gallasent ddymuno. Yr oedd yno fynyddoedd uchel, bwyd ffrwythlawn, nentydd grisialaidd, gwastadeddau eang a golygfeydd amrywiol ysplenydd; o ganlyniad nid oedd yn un syndod i feddwl i'r pererinion dreulio dyddiau llawen yno. Yn fuan darfu iddynt dderbyn gorchymyn oddiwrth y Brenin parth y gwaith neillduol a ofynid oddiwrth yr oll o honynt, ac ymaflodd pob un yn ei orchwyl ei hun yn galonog. Yn ol dymuniad y Brenin, yr oedd rhai cyfnodau wedi eu neillduo i orphwys ac adloniant, ac ar y cyfryw siaradai y pererinion â'u gilydd mewn perthynas i'w Harglwydd Frenin, eu dychweliad yn ol i'w gwlad, ac ar destynau dyddorol ereill. Ar rai prydiau unent oll mewn caniadau o fawl a diolch, ac yna dychwelent i'w gwahanol gartrefleoedd yn fwy ysgafn galon a mwy dewr.

Un diwrnod, fodd bynag, derbyniodd un pererin orchymyn nad oedd hoff o hono o gwbl, ac yn hytrach nag ufuddhau yn galonog dechreuodd gyflafareddu ag ef ei hun, ac yna ymdrechodd gael allan ryw esgusawd dros ei ddiystyru, er ei fod, ar yr un pryd, yn deimladwy o ryw lais mewnol oedd yn ei anog i dalu sylw uniongyrchol. Tranoeth oedd yr amser arferol i'r pererinion i gyfarfod â'u gilydd er goleuo, cysuro a dyddanu eu gilydd; ond yn hytrach nâ chymmeryd rhan yn y caniadau a'r ymddyddan, eisteddai yr un anfoddog ar ei

ben ei hun gan fyfyrio ar ei ofid, hyd oni ddarfu iddo gael ei ddyrysu, ac oblegyd hyny ni allai bellach gyfyngu ei deimlad anhapus iddo ei hun. Felly gosododd ef gerbron y brodyr ymgynnulledig, gan ychwanegu, "Ni allaf lai nag amheu, fy nghyfeillion, a ddaeth y genadwri oddiwrth y Brenin o gwbl, neu os daeth, a oedd yn ddaufeddyliog, a bod y cenadwr wedi rhoddi i mi y meddwl camsyniol; a phaham, wedi dyfod mor adnabyddus â'r wlad newydd hon, nad ydym ni at ein rhyddid i ganlyn ein pleserau yn fwy cyflawn, yn lle canlyn yn wastadol eirchion a dymuniadau y Brenin? O leiaf, fe garwn i gael gwybod rhagor am ein Harglwydd anweledig. A oes rhai o honoch chwi wedi ei weled erioed? A ydyw efe o ran ymddangosiad yn debyg i un o honom ni? O'm rhan fy hun, meddyliwyf ei fod yn anfoddhaol iawn i feddiannu meddylddrych mor anmhennodol am un sydd yn llywodraethu arnom, ac yr wyf yn pwrpasu ymdrechu cael allan ragor o wybodaeth am dano." Synwyd y pererinion ereill yn fawr ar y cyntaf wrth y fath ddatganiad; ond yn fuan anturiodd un ar ol y llall i wneuthur ychydig sylwadau am natur debygol y Brenin a gwireddusrwydd y genadwri oedd y pererin aflonydd wedi dderbyn. Yr oedd y pwnc mor hollol ddamcanol fel ag yr oedd pob un yn dal opiniwn gwahanol arno, ac ystyriai pob un mai ei feddylddrych ei hun oedd y goreu; o ganlyniad, cymmerodd dadl boeth le, yr hon nid oedd wedi ei dwyn i ben pan oedd cysgodau yr hwyr yn gordoi uwch ben. Fe ddarfu i'r pererinion gan hyny gytuno i dreulio y diwrnod gwyl nesaf i gymmeryd dan sylw pellach y cwestiwn o natur a chymmeriad y Brenin, ac, yn y cyfamser, gosodasant eu meddyliau ar waith i ddyfeisio a threfnu a pharotoi rhesymau, â'r rhai y gallasent amddiffyn eu hamgyffrediadau eu hunain yn ei gylch, a gwrthbrofi y rhai oeddynt yn gwahaniaethu oddiwrthynt. Cafodd eu gwaith arferol ei esgeuluso a chafodd y gorchymynion a ddanfonid fel arferol oddiwrth y Brenin naill ai fod yn ddisylw ganddynt, neu eu derbyn gyda'r fath glaearineb a difaterwch, fel ag i gael eu camddeall a'u camesponio yn fynych iawn. Treuliwyd wythnos ar ol wythnos yn y modd anfuddiol yma hyd i'r amser agoshau pan oedd un o'u gwleddoedd mwyaf pwysig i gael eu cynnal, ac etto i gyd esgeulusai y pererinion mwyaf cyffroedig eu dyledswyddau arferol a'u parotoadau arferol hefyd, oblegyd eu dyddordeb cynnyddol yn yr ymchwiliadau oeddynt wedi ymgymmeryd â hwynt.

Ar ddiwedd un dydd gwyl, wedi dadl boeth ac eiddigeddus anarferol, blinodd a diflasodd un pererin oblegyd y fath ddadleu anobeithiol a difudd, ac am hyny cynnygiodd,—Fod i'r mwyaf profiadol, pwyllog a doeth yn eu plith i roddi ei farn ar y mater. "Y mae ein cyfaill o bosibl," meddai, "wedi cael agosach cymmundeb gyda'r Brenin nag un o honom ni, ac o ganlyniad, y mae yn fwy tebyg o fod yn gwybod rhywbeth yn nghylch ei natur, a pha un a yw y genadwri dan sylw wedi dyfod oddiwrtho ef mewn gwirionedd ynte nad yw." Yna cododd yr hen frawd oedranus a doeth, â'i wallt mor wyn â'r eira, a'i wedd foneddigaidd a phwyllog yn ymddangos yn wahanol iawn a mwy dymunol i wedd yr ymrysonwr cyffroedig a llidus. "Fy nghyf-

eillion," meddai, "nid wyf erioed wedi gweled ein Brenin, ac ni allaf ddywedyd dim wrthych yn nghylch ei natur na'i ymddangosiad; dim hefyd yn nghylch gwirionedd neu ddilysrwydd y gorchymyn a dderbyniwyd gan fy nghyfaill, yr hwn a roddodd gychwyniad i'r ddadl. *Gallaf*, fodd bynag, adrodd i chwi rai o'r geiriau grasol o anogaeth â'r rhai y mae yr Arglwydd wedi fy nghynnorthwyo a'm bendithio i yn rai o oriau fy nywyllwch a'm dyryswch. Unwaith pan oedd fy nghalon yn llawn petrusder ac amheuaeth parth dirgeledigaethau y bywyd hwn, dywedwyd wrthyf,—'y buasai yr hwn *fuasai* yn gwneuthur ewyllys yr Arglwydd, yn cael ei ddysgu yn mhob peth angenrheidiol iddo i'w wybod.' Drachefn dywedwyd wrthyf,—'Fod yr hwn fynai adnabod y Brenin, yn rhwym o fod yn gwybod am y goreu a'r santeiddiaf o'i blant.' Hefyd dywedwyd wrthyf,—'Os buaswn yn gyntaf peth yn ceisio ei holl gyfraith ef a'i gyfiawnder, y buasai pob peth arall yn cael ei ychwanegu.' Yn awr, anwyl gyfeillion, yr wyf yn cael allan mai wrth ymdrechu deall ac ufuddhau i'r cyfryw, fod fy holl nerth a'm difrifoldeb yn angenrheidiol, fel nad oes genyf na'r amser na'r un duedd i fanylu ar y testynau ydych chwi wedi bod yn dadleu yn eu cylch. Ac os gwrandewch air o gynghor cariadus oddiwrth hen wr, dywedaf,—'Bydded i ni oll ufuddhau yn brydlon i'r gorchymynion a wyddom sydd wedi dyfod oddiwrth y Brenin; bydded i ni gyflawnu, heb amheu dim, y gorchwylion mae ef wedi erchi i ni eu cyflawnu; bydded i ni dreulio amser ein hymdeithiad yma mewn gwrteithio y wlad brydferth hon, ac mewn gweinidogaethu i'w thrigolion rhag pan y bydd amser ein hymddattodiad ar bwys, ac i'r Brenin i'n galw adref, y caiff allan ein bod wedi bod yn ymryson yn nghylch ei natur, ac yn lle ufuddhau i'w orchymynion, ein bod wedi bod yn dyfeisio esgusodion dros eu diystyru a'u gwrthod. Os, ar y llaw arall, y brysiwn i gwblhau y gwaith a roddes efe i ni i'w gyflawnu yma, yna gallwn ddysgwyl yn obeithiol a chalonog yn mlaen am ei wys i'n galw ymaith, a chan ymddiried y bydd iddo ef roddi i ni, yn y dyfodol nad adwaenom yn bresenol, y wybodaeth mwy cyflawn hyny o hono ei hun y mae llawer o honom mor awyddus am dani yn ein cyflwr presenol.'" Y nefoedd a roddo ras i ninau oll i ymddiried yn galonog ynddo, ac i ymdawelu dan yr ystyriaeth y cawn oll ein hargyhoeddi yn drwyadl, yn ei iawn bryd, fod,—"pob peth yn cydweithio er daioni i'r sawl sydd yn caru Duw."

M. M. D.

Mae garddwr yn ysgrifenu i'r newyddiaduron i ddywedyd ei fod wedi colli ei swydd yn unig am ei fod yn Undodwr. Eglwyswr oedd ei feistr, a phan gyflogodd efe'r garddwr, ni ddarfu iddo ofyn gair iddo yn nghylch ei grefydd. Aeth y garddwr i gryn *expense* i symmud i'w le newydd, ac yn mhen tair wythnos mae yn cael ei ddodi i *expense* newydd na wyr sut i'w gyfarfod. Dywed yr eglwyswr fod yn ddrwg ganddo. Ymddengys hyn yn debyg iawn i erlidigaeth.

Y DIWEDD.

Pan fo nos angeu'n nesu,
A'r galon bron yn gwaelu,
A'th holl aelodau'n methu
Cyflawnu eu gwasanaeth mwy i ti;
O cwyd dy ddwylo i fyny,
Gweddia Dduw bryd hyny,
Fe'n unig ddichon drefnu
Dy lwybrau trwy y dyffryn tywyll du.

A weli'r boreu'n gwawrio?
A glywi'n cael ei gario,
Ar edyn sy'n dysgleirio,
Gân angel i'th gysuro yn y byd?
O cwyd i'r lan d' olygon,
Rho heibio'th holl ofalon,
A gad ar ol drafferthion
Ynt wedi bod i'th flino'n dost cyhyd!

Mae'r Angeu'n dod dan reol
Ein Duw a'n Tad tosturiol;
Dos ato Ef yn siriol,
Y Cyfaill cywir drefna'r oll yn lân;
A pheidio wnaiff dy ofnau,
A darfod wnaiff dy boenau,
Mewn hedd tragwyddol oesau,
Yn swn hoff aur delynau gwlad y gân.

ESGOB COLENSO.

Mae y mwyaf o'r esgobion cenadol wedi marw, meddai un o'r prif newyddiaduron. Cymmerodd ei farwolaeth le Mehefin 20, yn Natal, *South Africa*, ar ol tri diwrnod o glefyd. Ganwyd John William Colenso Ionawr 24, 1814. Safai yn uchel fel ysgolhaig, a darfu i'w lyfrau greu chwyldroad hollol yn y gelfyddyd rifyddegol, fel mae rhifyddeg yn awr yn beth gwahanol iawn i'r hyn oedd cyn ei amser. Nid llai chwaith oedd ei ddylanwad ar dduwinyddiaeth. Cafodd ei wneuthur yn esgob Natal yn 1853, ac yn 1861 y cyhoeddodd feallai y cyntaf o'r llyfrau a ddygasant ei enw fel duwinydd i sylw cyffredinol. Esponiad ar yr Epistol at y Rhufeiniaid oedd hwn. Ynddo taflodd allan yr awgrymiad, yn dyner iawn yn wir, fod seilio cenadaethau Cristnogol ar y dyb fod yr holl fyd paganaidd i gael ei ddamnio, yn gyfeiliornus; a bod athrawiaeth poenau tragwyddol yn un nas gellir

ei hamddiffyn. Ar y cyntaf fe deimlid tosturi dros yr hyn a ystyrid feallai yn fympwyon diniwed, ond cyn hir fe glywid arwyddion storom yn ymgasglu, ac nid hir y bu Colenso cyn cael teimlo beth oedd chwerwder y digofaint yn y llestri offeiriadol. Yr oedd yn annyoddefol fod dyn yn dal ei syniadau ef yn cael aros yn esgob. Peth anhawdd hefyd yw i *outsider* allu deall sut y gallai yr esgob gysoni ei addysgiadau â'i broffes fel offeiriad o eglwys Loegr. Yn ei syniadau ymddengys ei fod yn Undodwr trwyadl.

Ymgyflwynodd yn selog tuag at addysgu y brodorion Zuluaidd, ac y mae ei amddiffyniad o'r brodorion trwy'r blynyddau, yn erbyn y "dylanwadau swyddogol," yn un a gydnabyddir yn ddiolchgar ryw ddydd. Ei waith yn cyfranu addysg Beiblaidd i un o'r Zuluaid fu yn foddion i ddwyn cyfnewid yn ei syniadau ar bwnc awdurdod y Beibl. Mae llawer o wawd wedi ei daflu arno fod y Zuluad wedi agor ei lygaid—y pagan anwaraidd wedi dyfod yn athraw iddo. Ond nid yw yn beth annghyffredin fod hyd y nod plentyn bach yn gofyn cwestiwn weithiau sydd yn fwy nâ digon i ddyrysu yr athronydd mwyaf medrus. Yr oedd y Zuluad yn ei gynnorthwyo i gyfieithu llyfr Josua a'r Croniclau, ac wedi dadgan ei annghrediniaeth ei hunan, gofynodd i'r esgob a oedd efe yn credu yr ystoriau rhyfeddol yma. Agorodd y cwestiwn hwn wythien newydd yn meddwl yr esgob ac arweiniodd ef i wneuthur sylw manwl a berniadol ar yr hanes, gan ddwyn y rhifoedd neu y ffigrau yn neillduol dan y prawf. Trodd yr ymchwiliad yn farwol i'w grediniaeth yn ysprydoliaeth geiriol y Beibl, yn gystal ag i garacter hanesyddol y dygwyddiadau a gofnodir yn hanesion boreu plant Israel, a phan gyhoeddodd y rhan gyntaf o'i waith ar Lyfrau Moses, &c., torodd yr ystorm allan yn ei holl echryslonedd. Ceisiodd esgob Gray ei ddiswyddo, a bu gorfod arno amddiffyn ei hun mewn llys cyfraith, er colled mawr i'w boced. Codwyd dros £3,000 fel tysteb iddo gan rai a gydymdeimlent ag ef. Wn i a ddaw yr amser pan fydd Eglwyswyr yn edrych yn ol gyda chywilydd ar y modd y gwnaeth eu brodyr ymddwyn tuag at esgob ardderchocaf ei oes!

Yn ddiweddar yr oedd wedi ymgyflwyno yn hollol at amddiffyn iawnderau y brodorion yn erbyn trais a gormes pobl ei hen gartref, ac yn nghanol ei bryder a'i ymdrech dros y rhai hyn y bu farw, wedi byrhau ei einioes yn ddiamheu yn ei waith.

Fel hyn yr ydys wedi gosod allan naw erthygl y cyhuddiadau yn ei erbyn; wedi hyny fe ddyddimwyd barn yr esgob Gray: (1) Mewn perthynas i farwolaeth Crist, yr oedd Dr. Colenso yn gwadu athrawiaeth boblogaidd yr iawn, ac yn dywedyd nâ fu Iesu Grist farw yn ein lle, gan gytuno yn hyn â'r Undodiaid. (2) Yr oedd yn gwahaniaethu oddiwrth yr Eglwys mewn perthynas i gyfiawnhad trwy ffydd. (3) Yr oedd yn gwadu nad oedd un gras neillduol yn cael ei drosglwyddo trwy Fedydd a Swper yr Arglwydd. (4) Yr oedd yn addef ei hunan yn gyhoeddus fel yn credu mewn Adferiad, ac felly yn gwadu athrawiaeth poenau tragwyddol. (5) Yr oedd wedi dywedyd nad oedd y Beibl fel llyfr cyfan yn air Duw. Caniatäai fod y Beibl yn cynnwys gair Duw; "fe glywir gair Duw yn y Beibl gan bawb a wrandawant

arno yn ostyngedig a defosiynol." (6) Cyhuddid ef o syniadau llaes yn nghylch ysprydoliaeth. (7) Cyhuddid ef o wadu dilysrwydd a gwiredd rhai gosodiadau yn y Beibl. Yr oedd wedi dadgan ei syndod fod manylion hanes y Pentateuch "yn cael eu hystyried yn mhlith pethau angenrheidiol i iachawdwriaeth." (8) Annghredai fod Iesu Grist yn Dduw ac yn ddyn. (9) Yr oedd wedi nodi annghywirdeb y Llyfr Gweddi. Ar y pynciau yma y cafwyd ef yn euog o heresi yn y Cape. Mewn gair, fel y dywed y *Christian Life*, yr oedd yn esgob Undodaidd yn Eglwys Loegr.

S. N. S.

BYWYD YR IESU.

Y DRYDEDD RAN.

Y MESSIAH.

Gwers 12.—*Darllener Marc viii. 10—13, 27—37; Matth. xvi. 13—17, 20—26: Testyn, Marc viii. 34, 35.*

Yr oedd gan yr Iesu, yn wir, reswm dros ofidio yn ddwfn yn ei yspryd pan y clywodd y gofyniad yma am arwydd. Gofynid iddo am wneyd yr hyn na allasai wneyd, ac yr oedd braidd yn sicr y byddai y ffaith ei fod yn gomedd yn debyg o brofi yn ddinystriol i'w genadwri. Yr oedd y meddwl Iuddewig yn llawn o'r syniad y dylai fod gwir broffwyd yn alluog i wneyd gwyrthiau, ac y byddai y nefoedd yn sicr o ddangos arwyddion a rhyfeddodau er mwyn dwyn tystiolaeth i'w hawliau. Yr oedd y dychymyg wedi cael ei borthi gan yr hanesion Ysgrythyrol am weithredoedd rhyfeddol Elias a'i olynwyr, a dysgwylid i unrhyw broffwyd newydd i roddi prawf cyffelyb o ffafr ac amddiffyn dwyfol. Os credwn ni yr oll a ddywedir wrthym yn y pedair Efengyl, yr oedd yr Iesu yn barhaus yn cyflawnu y gwyrthiau mwyaf rhyfeddol, ac yna mae'r cyfwng yma yn ei yrfa yn dyfod yn hollol anesponiadwy; ond os gadawn ni hanes y gwyrthiau ar y naill ochr, mae pob peth yn dyfod yn ddigon hawdd i'w ddeall. Mae y prawf gwirioneddol o'r awdurdod fel proffwyd yn gorwedd yn ei allu ysprydol, ei allu i siarad dros Dduw, ac i gynnorthwyo dynion i glywed a deall llais Duw yn eu heneidiau eu hunain; ond mae proffwydi nad oedd ganddynt ddim ond hyn i roddi awdurdod i'w haddysgiadau yn fynychaf wedi eu gwrthod, eu herlid, a'u lladd.

Yr oedd yr Iesu yn teimlo fod cyfwng wedi dyfod oddiamgylch, ac yr oedd yn rhaid iddo gael cyfleusdra i ystyried yn dawel beth i'w wneyd, ac i weddio ar Dduw am gymhorth a chyfarwyddyd (gwel Luc ix. 18). Felly mae'n ymneillduo i gymmydogaeth Cesarea Philippi, a thra yno mae'n gofyn i'w ddysgyblion beth yw'r farn boblogaidd am

dano. Mae yr ateb yn dangos fod barnau dynion yn amrywio, ond yr oeddent i gyd yn ei gyssylltu â dyfodiad y Messiah fel ei genad neu ei rag-redegydd. A beth feddyliai'r dysgyblion eu hunain? Trwy enau Petr maent yn cyhoeddi eu cred mai eu Hathraw ei hunan yw y Crist, y Messiah hir-ddysgwyliedig, yr hwn oedd i sefydlu y deyrnas nefol ar y ddaear, ac nid yw yr Iesu yn gwrthod y teitl, er ei fod yn eu gorchymyn i ofalu na fuasent yn ei gyhoeddi fel y cyfryw i'r byd, ac ar unwaith mae yn dechreu dadguddio i'w clustiau synedig beth oedd ei ddysgwyliadau, megys: ei ddarostyngiad chwerw, a'i farwolaeth, gyda sicrwydd, er hyny, o fuddugoliaeth yn y diwedd.

Dyma'r prif ffeithiau a roddir yn yr Efengylau. Gadewch i ni yn awr ymdrechu deall ychydig yn rhagor o'r hyn yn debygol a basiai trwy feddwl yr Iesu. Yr oedd ef wedi dechreu trwy gyhoeddi fod teyrnas nefoedd yn agos, yn barod i ddyfod, ond i ddynion wneyd eu hunain yn barod ar ei chyfer; gwnai Duw ei ran os byddai dynion yn gwneyd eu rhan hwy. Ond yn awr yr oedd ef yn gweled yn glirach o hyd nad oedd dynion ddim yn gwneyd eu hunain yn barod, ddim yn gwneyd eu rhan, a bod rhywbeth yn rhagor nâ phregethu i fyny ac i lawr ar hyd y wlad yn ofynol i gynnyrchu effaith ar y bobl. Nid oedd teyrnas nefoedd, ynte, yn agos, os na fyddai ymdrech bellach yn cael ei gwneyd i'w sicrhau. Teimlai fod yn rhaid iddo wneyd yr ymdrech yma ei hun; pa beth a fyddai? Yr oedd wedi deffroi gelyniaeth chwerw yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid; yr oedd wedi cyrhaedd dylanwad mawr dros gorff y bobl; ond yr oedd y dymuniad di-ffydd yma am arwydd yn sicr o andwyo hwnw. Yr oedd yn sefyllfa fwyaf anhawdd, ond ni wnaeth ond galw allan gyflawnder ei nerth, a pherffeithrwydd ei ffydd. Yn ol y mesur ag y cyfarfyddai'r Iesu â gwrthwynebiad, yn neillduol oddiwrth y Phariseaid selog a rhagfarnllyd, yr oedd ei hyder yn naioni ei achos a gwirionedd ei addysg yn myned yn ddyfnach ac yn gryfach. Yr oedd yn *gwybod* fod ganddo eiriau y bywyd tragywyddol, fod yr hyn a ddywedai y genadwri a ddymunai Duw anfon i'w bobl, yr un peth oedd angen arnynt; a thra yn teimlo hyn, gwawriodd yr argyhoeddiad ar ei feddwl mai efe oedd y Crist a hiraethai pawb am dano, yr Arweinydd oedd i gymmeryd lle athrawon deillion ei amser, y Bugail oedd i gasglu y defaid gwasgaredig yn ol i'w gwir gorlan. Yr oedd yr argyhoeddiad yma wedi tyfu oddifewn iddo; a phan y darfu i'w ddysgyblion am y tro cyntaf addef eu cred yn agored, darfu i hyny gadarnhau ei argyhoeddiad ei hun; yr oedd ef yn gwybod eu bod yn llefaru y gwirionedd; ac oddiar yr amser hwnw efe oedd y Crist.

Yn y cymmeriad yma rhaid iddo gyfarfod a gorchfygu ei hen wrthwynebwyr, y Phariseaid, yr Ysgrifenyddion a'r Archoffeiriaid; gydag awdurdod y Messiah rhaid iddo ddarostwng pawb a fynent rwystro dyfodiad y deyrnas. Ac etto ni wnaethai y tro i gymmeryd i fyny y teitl yn gyhoeddus, oblegyd perai hyny ar unwaith i bawb feddwl ei fod yn myned i godi byddin ac i wrthryfela yn erbyn y Rhufeiniaid. Mae'n rhaid i'w gydwladwyr ddysgu syniad hollol wahanol am y deyrnas a ddymunai ef i'w sefydlu cyn y gadawai iddynt i'w ystyried

ef fel y Messiah. Yr oedd yn rhaid iddo dreio cynllun arall; cynllun ag oedd dyledswydd yn ofyn; ond mor debyg oedd i derfynu mewn dinystr, fel ag y mae, heb oedi dim, yn rhybuddio ei ddysgyblion gyda golwg ar yr hyn maent i'w ddysgwyl. Beth oedd y cynllun arall yma ni a gawn weled yn y Wers nesaf.

GOFYNIADAU AR WERS XII.

1. Eglurwch ystyr y dymuniad am arwydd o'r nefoedd.
2. Beth ydyw'r prawf fod dyn yn wir broffwyd?
3. Desgrifiwch beth gymmerodd le yn Cesarea Philippi?
4. Eglurwch sut yr oedd fod yr Iesu yn croesawu addefiad Petr, "Ti yw y Crist," ac etto yn gorchymyn ei ddysgyblion i beidio rhoddi y teitl hwnw iddo yn gyhoeddus?

Gwers 13.—*Darllener Marc viii. 31—37; ix. 30—37; Luc ix. 51—62: Testyn, Luc ix. 62.*

Y cwrs a benderfynodd yr Iesu i'w gymmeryd oedd hwn: teimlai yn ddyledswydd arno i fyned i fyny i Jerusalem i wyl y Pasg oedd yn agoshau, ac i wneyd appel yno at y bobl yn gyffredinol. Y pryd hwnw byddai miloedd o'i gydwladwyr o bob rhan o Balestina, ac o lawer o fanau ereill tuhwnt i'w therfynau, wedi ymgasglu tufewn i furiau y ddinas santaidd; cawsent oll gyfleusdra i glywed ei efengyl, a chawsai yntau weled a fuasai Israel, fel pobl, yn ei derbyn neu yn ei gwrthod. Yn sicr yr oedd yn bosibl i'r Arglwydd droi eu calonau ato ei hun, ac ymaith oddiwrth yr holl ddefodaeth ddiystyr ag oedd yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn osod i fyny yn lle gwir gyfiawnder! Ond pan y daeth i ystyried pa mor debygol oedd o lwyddo yr oedd yr Iesu yn adnabod y natur ddynol yn rhy dda i dwyllo ei hun yn y mater hwn. Pe byddai ynddo y mesur lleiaf o benboethni, ymgymmerai â'r daith yn llawn brwdfrydedd, yn hyderus fod buddugoliaeth drwyadl yn ymyl. Edrychai yn mlaen, yn hytrach, gyda phryder, ond etto yn wrol, ac ni roddodd fyny i ymddiried y gwnai Duw yn iawn yn y diwedd. Dyma beth yw ffydd yn ei pherffeithrwydd; teimlo fod Duw yn eich galw i wneyd rhywbeth mawr, credu eich bod braidd yn sicr o fethu ar ol ymgymmeryd ag ef; ac etto myned yn mlaen a gwneyd eich goreu, a pheidio anobeithio na thry pob peth allan yn iawn yn y diwedd.

Darfu i'r dysgyblion yn naturiol gymmeryd golwg wahanol iawn ar y mater. Ar ol iddynt hwy unwaith broffesu eu cred mai eu Hathraw oedd y Crist, ac iddo yntau dderbyn y teitl a'r swydd, darfu i'w meddyliau yn anocheladwy gymmeryd ffurf y dysgwyliadau mwyaf dysglaer. Yn ystod eu holl fywyd yr oeddent wedi cyssylltu dyfodiad y Messiah â chyflawniad eu dymuniadau anwylaf a'u gobeithion mwyaf derchafedig. Nis gallasent yn awr gredu mewn unrhyw feth-

iant, hyd y nod anamserol. Unwaith yn rhagor mae Petr yn siarad drostynt, ac mae llymder anarferol y cerydd a dderbyniasant oddiwrth yr Iesu yn dangos mor anhawdd oedd cael gan y dysgyblion hyd y nod i dreio gweled pethau fel y gwnai eu Hathraw. Ar eu dychweliad i Capernaum, maent yn ymryson yn mysg eu gilydd pwy fyddai fwyaf yn y deyrnas oedd ar ddyfod; ac hyd y diwedd, nid oedd dim ag y gallai'r Iesu wneyd yn llwyddo i'w dwyn i wir gydymdeimlad ag ef. Nid yw yn syndod i'r genedl yn gyffredinol ei wrthod, gan fod hyd y nod ei ddysgyblion ef ei hun yn methu gwerthfawrogi ystyr ac amcan ei genadwri.

Yn ol Matthew a Marc, cymmerodd yr Iesu ei daith i Jerusalem trwy y wlad tuhwnt i'r Iorddonen; ac ymddengys mai'r olwg yma yw yr un gywir; ond mae Luc yn gwneyd i'r Iesu i gymmeryd llwybr mwy uniongyrchol trwy Samaria, ac mae'n cofnodi rhai amgylchiadau ydynt yn rhoddi llawer o gymhorth i sylweddoli sefyllfa pethau ar y pryd. Mae y dysgyblion yn barod i sefydlu awdurdod eu Harglwydd trwy dân a chleddyf, ac ymddangosant fel yn cyfranogi o'r gred boblogaidd fod hawliau y gwir broffwyd, ac yn neillduol y Messiah, yn cael eu hamddiffyn gan ddadguddiadau goruwch-naturiol o ffafr dwyfol. Mae'n briodol i sylwi hefyd fod llymder y gofynion a wnaed gan yr Iesu ar y tri dysgybl yn dal perthynas ag angenion y cyfwng neillduol hwnw. Nid yw yn debyg y buasai yn llefaru felly ar achlysur cyffredin, oblegyd nid ei arferiad oedd diffodd y llin sydd yn mygu. Ond yn awr yr oedd pethau wedi cyrhaedd eu heithafnod, ac nis gallai neb ei ganlyn ef nad oeddent yn barod i wneyd fel yr oedd e'n gwneyd,—rhoddi fyny bob peth mewn un ymdrech derfynol, brwydr a ymddangosai yn ddiobaith, ond etto wedi ei gorchymyn gan Dduw.

Gofyniadau ar Wers XIII.

1. Pa resymau oeddent yn cymhell yr Iesu i fyned i fyny i Jerusalem?
2. Beth amcanai wneyd yno?
3. Pa effaith a ddysgwyliai i'w ymdrechion?
4. Dangoswch sut mae hyn yn dwyn ei ffydd i'r golwg?
5. Desgrifiwch sefyllfa meddwl y dysgyblion.
6. Dangoswch sut mae yr amgylchiadau yn Luc yn eglurhau natur y sefyllfa.

M. S.

Mae gan bob dyn byw ei waith i'w wneuthur oddi fewn, ei ddyledswyddau i'w cyflawnu allan, ei ddylanwadau i'w achosi, y rhai ydynt yn neillduol ei eiddo ei hun, a'r rhai ni ddichon un gydwybod ond yr eiddo ei hun eu dysgu.—*F.H.*

Mae meddylddrychau mawrion yn teithio yn araf, ac am amser yn ddi-son am danynt, yn debyg fel y dywedid fod traed y duwiau, y rhai oeddynt wedi eu gwisgo â gwlan.—*Garfield.*

MELINAU AT WEDDIO.

O bob ffordd *cheap* at arbed gwaith, dichon nad oes yr un mwy rhyfedd nâ'r felin weddio, yr hon sydd mewn ymarferiad cyffredin yn rhai gwledydd tramor. Ymddengys yn ngolwg rhai yn ein gwlad ein hunain fod pob cynllun yn fwy poblogaidd tuag at sicrhau nefoedd nà gweithio am dani. Ceir llawer yn barod i dalu am dani, neu weddio am dani, neu broffesu credu beth bynag fynir am dani, heb fod mewn un modd yn awyddus i fyw yn deilwng am dani; yn foddlawn myned i'r cwrdd ar y Sul yn y gobaith o'i sicrhau trwy hyny o wasanaeth, ond yn dra esgeulus yn yr ymarferiad o'r gofynion a esyd arnynt. Oes, y mae lle i ofni fod gormod yn credu y gwnaiff y tro i gadw defodau a seremoniau crefydd heb edrych at ei bywyd hi; fod gormod yn meddwl mai gwaith yr offeiriad neu y pregethwr yw gwaith crefydd, a bod eu rhan hwy wedi ei gorphen pan fyddont wedi cyflawnu dyledswyddau allanol crefydd, y dyledswyddau allanol mae eu sect hwy yn eu gofyn oddiwrthynt. Fe ddichon y rhai hyn fod yn bwysig, ond nid crefydd mo honynt, nad cymmaint yr help y gallant fod at grefydd; gallant fodoli heb grefydd. Os yw dyn yn anonest, yn dwyllwr, esgusawd tlawd yw dywedyd ei fod yn gwrddwr da; os yw yn rhy hoff o'r cwpan nid digon dywedyd ei fod yn athraw defnyddiol yn yr Ysgol Sul; os yw yn draws ac yn anngharuaidd, yn droseddwr ar ddeddfau moes a rhinwedd, nid yw efe nemawr gwell fod yr offeiriad yn cyflawnu ei waith yn dda, fod y pregethwr yn pregethu yn dda neu yn gweddio yn dda, neu fod yr Iesu wedi marw ar bren y groes. Os cul yw ffordd y bywyd, anngbyson iawn yw y dyb y gellir cyrhaedd ei phen draw heb rodio ar hyd-ddi, neu dybied y gwnaiff y tro i ryw un arall rodio ar hyd-ddi yn ein lle, a ninau yn rhodio ffordd arall. Ni ddichon yr afradlawn gyrhaedd Jerusalem tra yn parhau ar ei daith tua Babilon, nac ychwaith tra fyddo yn aros yn Babilon. Nid oes gan offeiriad na phregethwr yr un feddyginiaeth a dry bechadur yn sant ar unwaith. Nid oes yr un *royal road*, ffordd *cheap* i fyned i'r nefoedd. Os drwg fydd dyn nis dichon dim beri i'r Hollwybodol ei *gyfrif* yn ddim ond drwg. Os bydd dyn wedi treulio ei holl fywyd yn gwasanaethu y drwg, a ydyw yn rhesymol i feddwl fod y ffordd i'r nefoedd yn fyrach ac yn sicrach i hwnw, nag i'r dyn sydd wedi ceisio trwy ei holl fywyd i rodio yn llwybr dyledswydd a chariad? Gellir meddwl weithiau wrth ddarllen ein newyddiaduron fod rhai yn tybied fod ffordd fer iawn a rhwydd iawn i'r nefoedd oddiar y grogbren. A ydyw yn rhesymol i feddwl fod Duw yn bartiol i'r llwybr yma—llwybr y grogbren? Gwir y dichon rhai fyned i'r grogbren heb ei haeddu, mae llawer felly wedi myned o bryd i bryd. Ond a ydyw Duw yn bartiol i rai yn haeddu eu crogi? A ydyw pechodau dynion drwg yn llai yn bechodau oblegyd fod y dynion hyny wedi derbyn yr offeren neu y cymmun? A ydyw ymddygiad James Carey yn llai cythreulig am ei fod yn rheolaidd yn ymwneyd â phethau cyssegredig? Onid yw yn rhesymol i feddwl fod ei bechod yn fwy? Wrth ei ffrwythau yr ad-

nabyddir y pren. A gyfrifa Duw y pren yn dda os bydd y ffrwythau yn ddrwg? Nid drwg, ond da, nid pechod ond rhinwedd sydd gymmeradwy gyda Duw. Yn ol yr hau y bydd y medi onid e? da am dda, drwg am ddrwg. Llwybr rhinwedd ac nid llwybr pechod sydd yn arwain i ddedwyddwch.

Yn ol a hauom yn y byd
Y cawn oll fedi mewn iawn bryd.

Os hauir ceirch, ceirch gynnyrchir; os heuir haidd, cynnyrchir haidd. Nid nefoedd am ladrad, am lofruddiaeth, am ddrwg; nefoedd am ddaioni, dyna'r addewid. Am waith hefyd, nid am seguryd, y rhoddir nefoedd—nefoedd yma, a nefoedd yn ol llaw. Nid nefoedd am seguryd mewn monachdy nac ar ben colofn gyda St. Simeon Stylites y pregethir gan Paul, ond nefoedd am waith. Nid nefoedd am dal ond nefoedd am waith; nid nefoedd i un am waith wedi ei gyflawnu gan arall, ond nefoedd i bob un am ei waith personol ei hunan. "Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain trwy ofn a dychryn." Nid *by proxy* y sicrheir rhinwedd a phurdeb a santeiddrwydd. Nac anghofiwn byth fod cymmeriad fel tocyn y *railway* yn annhrosglwyddadwy—*not transferable*. Os bydd rhai o drigolion Cristnogol Gwlad y Bryniau, y rhai a ymffrostiant yn rhesymoldeb eu crefydd, yn teimlo tosturi dros anwybodaeth y dynion hyny a briodolant rinwedd ac effeithioldeb i grefydd a weithir trwy beiriant, onid teg yw dysgwyl na byddo iddynt hwy feddwl sicrhau rhinwedd iddynt eu hunain ond trwy fyw eu hunain yn rhinweddol? Gwyddom am rai a broffesant eu hunain yn Undodiaid ac a ddywedant nad oes ganddynt ffydd mewn dim tebyg i "gyfrifiad" mewn pethau crefyddol, ac ar yr un pryd a ddysgwyliant fod pob gwaith mewn cyssylltiad a'u crefydd yn cael ei gyflawnu drostynt gan ereill. Y maent hwy yn foddlawn nodi beiau, ac weithiau feallai yn foddlawn talu am "weithio y peiriant," ond am *wneuthur* dim eu hunain ofer dysgwyl hyny. Ond gadawer i ni ofyn yn ddifrifol Ai dyma yr oll o grefydd? Oes dim Mongoliaid crefyddol i gael yn Nghymru? Fel hyn y mae y Parch. James Gilmour yn rhoi hanes y melinau gweddio yn mhlith y Mongoliaid Bwdistaidd:

"Ceir naw o bob deg o'r Mongoliaid yn cario *rosary* (cadwen o *beads*) ac yn cyflym adrodd eu gweddiau. Nid yw yr effeithioldeb yn dybynu ar yr ystyr, ond ar fynych-adroddiad y weddi. Nid yw, a siarad yn briodol, yn weddio o gwbl, ond adrodd swyn-eiriau (*repeating charms*). Nid yw gweddio trwy lafar genau ond peth araf iawn; ac felly i hwylysu materion, yr ydys wedi dyfeisio peiriant gweddio, ac i hwn y taflir nifer mawr o weddiau argraffedig; troir y peiriant, a thybir fod y weithred syml yma yn peri adroddiad yr holl weddiau fo yn y peiriant ar y pryd. Cyflymir y gwaith fel yma yn rhyfeddol. Mae *handle* wedi ei osod wrth y peiriant yn y fath fodd fel ag y gall dyn ei droi yn rhwydd tra y mae ar yr un pryd yn rhodio oddiamgylch. Ac felly gellir yn fynych gwrdd a dynion yn edrych ar ol eu da, neu yn myned o fan i fan, ac ar yr un pryd yn troi eu melinau gweddio yn barhaus. Mewn rhai pebyll ceir *stand*, ac yn hwn beiriant mawr,

yn dal yr un berthynas i'r peiriant llaw ag sydd rhwng Beibl mawr a Beibl bach. Cyssylltir cortyn wrth granc, ac wrth hwn y mae aelodau y teulu yn eu tro yn tynu er mwyn gweithio y peiriant. Os tynir yn anamserol ac yn y fath fodd ag i yru'r peiriant yn ei wrthol, fe dybia'r Mongoliad fod hyny yn gwneuthur pechod yn lle haeddiant. Mewn un tŷ gwelais olwyn wedi ei osod uwchlaw y tan ac yn cael ei weithio gan yr awyr oedd yn myned i fyny, yn debyg i *roasting-jack*. Ffurf gyffredin i'r felin weddio yw melin wynt wedi ei osod ar bolyn uchel uwchlaw y babell. Pan fyddo awel gref o'r *north-west* yn codi, mae y peiriant yn troi gyda swn mawr; a'r Mongoliad druan, tra mae yn crynu yn ei babell o herwydd y dymhestl, mae yn teimlo ei hun yn cael ei gysuro, o leiaf mor bell â hyn, fod nifer fawr o weddiau yn cael eu cyflawnu drosto. Tybia'r addolwyr fod adrodd y swynion a throi y peiriant yma yn cynnyrchu haeddiant sydd yn dyddymu pechod. Maent yn byw yn y gred yma, ac yn marw â'r celwydd yma yn eu llaw ddehau. Mae y meddylddrych yma hefyd yn achos llawer o bechod. Gan ei fod yn credu fod yr haeddiant yma yn dyddymu pechod, nid yw y Mongoliad yn gwneuthur un ymdrech at adael pechod a byw yn dduwiol, ond yn hytrach ei ymdrech yw sicrhau digon o'r haeddiant yma i orbwyso ei bechod, a'i feddwl yw mai po fwyaf crefyddol y byddo, mwyaf i gyd y gall fforddio pechu, yn debyg fel mae'r un sydd yn meddu mwyaf o arian yn gallu fforddio gwario fwyaf."

Yr oedd y brenin John, y mwyaf feallai o'r pechaduriaid breninol, yn meddwl pan ar ei glaf wely, y gallai fod o ryw les iddo i osod am dano wisg monach crefyddol. Rhyfedd y syniad sydd gan rhai dynion am Dduw! Tybiant y boddlonir Duw ond yn unig cael "gwisg wen" crefydd, a hyny er gwaethaf geiriau Paul: "Na thwyller chwi, ni watworir Duw, canys beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe."

S.

O ARWAIN NI.

O arwain ni, ein Tad, yn llwybrau hedd;
Os heb dy law arweiniol crwydro wnawn,
Dan wyllt amheuon oll yn drist ein gwedd,—
O arwain ni, ein Tad, i'r llwybrau iawn.

O arwain ni hyd ffordd gwirionedd pur;
Os heb dy help gwnawn ymbalfalu'n ddall;
Cawn holl wendidau'n ie'nctid yn dwyn cur,
A henaint yn cynnyddu llawer gwall.

O arwain ni, ein Tad, yn llwybrau'r iawn,
Yn syrthio'n ddall yr ydym wrth ein hun;
Trwy nos o ddu gysgodau'n ddyogel awn
O dan d' arweiniad Di, ein nefol Gun.

O arwain ni i'th nefol gartref clyd,
Ai teg ai garw y byddo'n hymdaith ni,
Cawn oll fo'n oreu genyt tra'n y byd,
Ac wedi'n ein perffeithio ynot Ti.

DYBACCO.

Mr. Golygydd,—Mae arnaf eisieu gorphen fy erthyglau ar dybacco, ac nid ydych chwithau fynychaf heb angen cymmorthwy i lanw tudalenau eich misolyn. Felly er prined fy amser, yr wyf yn dechreu erthygl ar y pwnc uchod ac yn gobeithio ei orphen mewn pryd iddo gael ymddangos yn y rhifyn am Awst. Yr wyf yn addaw mai hon fydd yr olaf ar y pwnc, a gwn bydd llawer o'ch darllenwyr, y rhai ni ystyrient fywyd yn werth i'w fyw heb y bib a'r dybacco, yn gwneddi Amen gyda hyn. Pa un a ydyw caethion blys yn ei gredu ai peidio, yr wyf wedi ysgrifenu gwirionedd, cymmaint o wirionedd a dim sydd wedi ymddangos ar dudalenau yr Ymofynydd erioed, ond gwirionedd nad yw myglyswyr yn caru ei glywed am na feddant gymmaint o wroldeb a phenderfyniad i roi heibio'r dybacco,—arferiad afreidiol, niweidiol, gostus, fawlyd, ddrewllyd, a byddai dda genyf po gallwn gofio rhyw ansoddeiriau pwrpasol ereill a fyddent effeithiol i greu casineb yn mhawb at y myglys. Yr wyf erbyn hyn wedi cofio un yn ychwaneg, ond nid wyf yn ewyllysio rhegu yn yr Ymofynydd.

Parod efallai yw rhyw hen ffrynd i ddweyd, "Oni allaf wneuthur fel y mynwyf a'm hunan a'r oll sydd yn eiddo i mi? Os yw'r dybacco yn costio i mi lawer o arian mewn blwyddyn, myfi fy hunan sydd yn gorfod dyoddef y canlyniadau." Wel, mae gwirionedd yn hyn, ond nid yw yn wirionedd i gyd. Wrth wario arian ar bethau afreidiol, mae llawer o wyr y dybacco nid yn unig yn yspeilio eu hunain o bethau gwir angenrheidiol, ond hefyd eu gwragedd a'u plant yn yr un modd. Dichon fod hen *scot* yn ddyledus i'r siopwr. Damweiniodd i mi un tro mewn rhyw fan weled *Bill Shop* yn rhedeg yn debyg fel y canlyn:—

——————— Jany. 24th, 188—.

Mr. DAVID JONES.

To REES DAVIES.

188—.		£	s.	d.
Septr. 1,	To ¼ Tobacco	0	1	3
,, 10,	To ¼ Do.	0	1	3
,, 15,	To Vesuvians	0	0	6
Octr. 7,	To 1 Wooden Pipe	0	0	4

Yn y blaen yn y modd yma neu yn gyffelyb y rhedai y *Bill* am yn agos ddwy tudalen. Yr oedd yn hen pryd hyny ac heb ei *receipto*, a mwy ná thebyg mai felly mae yn aros. Nid y smociwr ei hunan yn unig yw'r colledwr yma. Nid yw canlyniadau drygioni yn cael eu cyfyngu bob amser i'r troseddwyr eu hunain, ond y mae rhai dieuog yn gorfod dyoddef fel mae gwaethaf y modd. Eithaf gwir yr hen ddiareb (a dywedwch chwi pam y mae yr arferiad o honi yn cael ei warafun yn Ezeciel), "Y tadau a fwytasant rawnwin surion, ac ar ddannedd y plant y mae dincod."

"Yr wyf yn rhydd i wneyd fel y mynwyf," meddai rhyw 'sgogyn anystyriol! Mae rhyw feddyliau rhyfedd gan rai dynion mewn perthynas i *ryddid*. Wrth wneuthur yr hyn a dybiant fod ganddynt ryddid i'w wneuthur, mae dynion yn aml yn tori ar draws rhyddid ereill. Y rhyddid garai ambell un gael yw, nid yn unig rhyddid i wneyd yr hyn y mae yn ewyllysio, ond rhyddid i orfodi dynion ereill i wneuthur yr un peth, neu i fod yn ddystaw. Mae hyn yn mhell o fod yn iawn. Mae rhyddid yn newid i ormes oddieithr ei chadw i weithredu o fewn terfynau. *Liberty without its licentiousness* yw y rheol briodol. Nid ydym at ein rhyddid i ladrata eiddo personau ereill; yr ydym yn myned i afael y gyfraith pan wnelom hyny. Nid ydym at ein rhyddid i osod ein teiau ein hunain ar dán os byddwn trwy hyny yn peryglu teiau ein cymmydogion. Nid ydym at ein rhyddid, yn foesol felly, i boeni dynion ereill wrth erlyn ein meluschwant ein hunain. Yn nghanol ein mwynhad dylem ystyried beth ddichon fod teimlad ereill. Mae adnod fach yn yr Epistol at y Philippiaid a ddylai fod ar gof a chadw genym: "Nac edrychwch bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo ereill hefyd,"—ie *hefyd*. Mwy teilwng fyth o'i chofio yw y rheol auraidd fel ei gelwir, "Pa bethau bynag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy." Nid yw pobl y dybacco yn cofio hon bob amser. Mae blys angerddol yn eu llanw ag hunangarwch, ac yn eu gwneuthur yn ddifater am ddynion ereill. Mae'r smociwr lawer gwaith wedi mynu yr ystafell iddo ei hunan gan gymmaint ei fwg a'i ddrewdod, a llawer dyn a dynes o herwydd eu haflechyd a'u gwendid cydfynedol wedi gorfod myned allan i'r awyr agored ac ymdaro yno fel y gallent. Wrth deithio gyda'r gerbydres gwelir llawer iawn o hunanedd creulon smocwyr. Er fod cerbyd ar wahan i'r tylwyth hyn, er peidio bod o honynt yn *nuisance*, neu yn bla i ddynion syber, etto nid bob amser yr ant i'w lloc eu hunain, eithr ymdyrant i'r *carriages* ereill, a byddant mor annghydfyddus ag y gall pibau a dybacco eu gwneyd. Mae yn wir fod hyn yn groes i *bye-laws* neu gyfreithiau neilldual y reilffyrdd, ond nid yw'r genedlaeth hon yn malio dim am hyny cyhyd ag na byddont yn cael eu cyhuddo wrth yr awdurdodau; ac anfynych ar y cyfan y gwneir hyn; gwell gan deithwyr ddyoddef ná dwyn cwyn yn eu herbyn. Bu yn ddrwg genyf lawer gwaith weled dynes wylaidd a gwanaidd ei golwg ar ymdaith yn nghanol dyeithriaid, yn annghyfarwydd á'r mwg a'r drewi, yn edrych yn wasgedig iawn ac yn pesychu yn ddibaid mewn dysgwyliad tost am yr orsaf er mwyn cael ymwared

o'i chyflwr caled. Yr un modd yn fynych gwelir plant ieuainc yn mron mogi, a babanod yn nghol eu mamau yn gerain yn druenus nes peri pawb ond smocwyr eu hunain i deimlo yn ddwys wrth eu clywed. Gwna amboll i un weithian, ychydig yn fwy boneddigaidd na'r frawddoliaeth yn gyffredin, ofyn i'w gyd-deithwyr a oes ganddynt wrthwynebiad iddo smocio tipyn yn y cerbyd, ond y mae wedi tauio ei bib braidd cyn rhoi amser i neb ateb; ac os dywed rhywun wrtho "*I object to smoking in this carriage, sir*," dyna ef ar ei wrthwyneb ac yn edrych mor drymaidd a *savage* a bwlgi. Ond ar y cyffredin nid yw'r giwdod yma yn ymostwng i ofyn cenad gan neb; mygant nes llanw yr holl gerbyd, a chan nad faint o boen fyddo hyny i ereill. Nid carwyr rhyddid mewn gwirionedd yw'r taclau yma, ond creaduriaid wedi ymwerthu i flys ac yn dysgwyl ar ddynion ereill i fod mor hunanymwadol a chydymddwyn â hwynt tra y maent yn porthi eu blys. Wele yn canlyn gyfieithad trwsgl o lythyr a ymddangosodd yn y *Times*, Medi 13eg, 1879.

"Mae un rheswm neilldnol yn erbyn smocio yn enwedig yn erbyn smocio yn gyhoeddus nad oes sylw ac ystyriaeth digonol wedi ei dalu iddo, h.y., y difaterwch cywilyddus a ddangosir gan smocwyr o barthed i gysur a chyfleusdra cymdeithas yn gyffredinol. Yn y wlad hon mae y mwyafrif o ddynion etto yn groes i smocio; nid ydynt yn hoffi arogl dybacco, yn enwedig os y bydd yn ddrwg, ac y mae felly yn gyffredinol. Nid ydynt yn caru anadlu'r mwg sydd wedi ei chwythu allan o safn y smociwr sydd newydd basio heibio iddynt, neu ynte sydd yn sefyll gerllaw. Nid ydynt yn caru myned i mewn i ystafell a chael fod smocwyr wedi bod yno o'n blaen. Mae smocwyr yn mynu mwy na'u cyfran (*share*) o le yn y gerbydres. Rhaid i smociwr gael cerbyd at ei wasanaeth pan na byddo, fe ddichon, ond efe ei hun i mewn ynddo, tra byddo, efallai, ryw ddwsin o bersonau yn gwylltu ac yn rhedeg ar y *platform* yn methu cael lle, a'r *guard* eisoes wedi chwythu yn ei *whistle*. Peth sydd yn waeth fyth, mae'r smociwr yn aml yn gwrthod myned i mewn i'r cerbyd sydd wedi ei ddarparu at ei wasanaeth, ac yn teimlo yn anfoddlawn os dywed neb wrtho hyd y nod yn y modd mwyaf tirion, nad oes boddlonrwydd iddo smocio yn y cerbyd hwnw. Mae dybacco yn gyffyr (*drug*) nerthol yn cael ei weinyddu trwy yr anadliadon (*respiratory organs*)—hyny yw, trwy yr awyr; a chan ein bod yn anadlu awyr ein gilydd fel eiddo cyffredin, mae'r smociwr yn gweinyddu ei *ddrug* i bawb oddiamgylch iddo bodd neu anfodd. Un o effeithiau mwyaf hynod myglys yw difaterwch y sawl sydd yn ei arfer, gyda golwg ar gysuron ereill. Nid oes un *drug* arall a wna ddim yn debyg i hyn. Ni wna opiwm na gwirod meddwol gymmyrchu y fath annheimladrwydd. Gwna'r pethau hyn ddyn yn ddall i'w wir les a'i gymmeriad ei hunan—gwnant ef yn ffwl neu yn afreolus, ond ni wnant ei osod mewn gwrthwynebiad gweithredol parhaus i ddynion yn gyffredinol, fel ag i wneuthur bob amser, ac mewn modd agored, a chyda phleser yr hyn y maent hwy yn ei gashau yn fawr ac yn credu ei fod yn niweidiol. Y sawl sydd yn bwyta opiwm nid yw yn gorfodi ereill i fwyta gydag ef. Nid yw'r

meddwyn yn gorfodi ereill i yfed. Mae'r smociwr yn eich gorfodi i smocio—ïe mwy—i dynu i mewn â'ch anadl y mwg sydd newydd ddyfod allan o'i safn ef. Mae yn wir nad oes dim malais yn y peth. Nid yw'r smociwr yn dymuno un drwg i chwi pan y mae yn chwythu cwmwl o *nicotin* yn eich wyneb. Nid yw yn malio pa un ai dedwydd neu annedwydd y byddoch." Felly, neu rywbeth yn debyg, y dywed y *Times*. Digon gwir nad oes yn mynwes y smociwr un malais pan y mae yn cael ei ffordd ei hunan heb neb yn dywedyd dim yn ei erbyn; ond bygythiwch ef, a gwnewch iddo osod ei bib o'r neilldu, ac yna dengys i chwi ei ddanedd.

Ychwanegaf yma yr hen ystori am y Crynwr ac un arall gydag ef yn dygwydd myned ar daith gyda'r *Stage Coach*. Yr oedd y ddau tufewn. Nid oedd y Crynwr yn foddlawn i'w gyd-drafaelwr smocio mewn lle mor gul, a cheisiodd yn foneddigaidd ganddo beidio, gan ddywedyd fod y mwg a'r *smell* yn *nuisance* blin iddo. Yr ateb a gafodd y Crynwr mewn acen sarug oedd, "Mae genyf hawl i wneuthur fel yr wyf yn dewis." Nid oedd gan y Crynwr ddim i'w wneyd ond dyoddef hyd nes y celai gyfleusdra, ac astudio pa fodd y gallai ddysgu gwers o foesgarwch neu *good manners* i'r cyfaill cyn ymadael. Mae'r Crynwyr i fyny mewn pethau fel hyn, ac nid hawdd y gellir myned tuhwnt iddynt. Wedi cyrhaedd y gwesty lle yr oedd y *Coach* yn aros er newid ceffylau, prynodd y Crynwr ddwy ganwyll wêr fawr a phabwyr yn iawn iddynt. Aeth ag un ganddo yn nghyn i mewn i'r *Coach*. Cynodd yr ail a diffoddodd y cyntaf ac yn y blaen felly gan gynu a diffodd y canwyllau bob yn ail nes oedd y cerbyd yn llawn o fwg drewllyd. Nis gallasai'r cyfaill oddef yn hwy, a gofynodd i'r Crynwr mewn llais tra awdurdodol pa beth oedd yn olygu wrth y fath ymddygiad? Atebodd y Crynwr ef yn ei eiriau ei hun, "Mae genyf hawl i wneuthur fel yr wyf yn dewis." Deallodd y cyfaill yr awgrym, rhoddodd heibio smocio, ac aeth y Crynwr ac yntau wedi hyny yn gytunus a chysurus i ben eu taith.

Mae y llythyr uchod o'r *Times* yn awgrymu fod y smociwr yn waeth nâ'r meddwyn. Mewn rhyw ystyr y mae yn waeth yn ddiamheuol. Os bydd un yn *right* feddw nid yw yn alluog i ddyfod o'r man lle byddo; ac os na fydd un yn caru ei faldordd, nac yn hoff o dawch breci a gwirod, gall fyned yn ddigon pell oddiwrtho. Ond am y smociwr nid yw hwnw yn hollol ddisynwyr, ac y mae grym yn ei goesau. Os bydd yn dewis dylyn arall, fe geidw yr arall hwnw mewn mwg a drewdod, ac nid hawdd fydd cael ymwared oddiwrtho. Rhyw fath o gorff y farwolaeth yw'r smociwr, a byddai yn fendith fawr lawer pryd i allu dianc oddiwrtho a bod allan o awyrgylch ddrwg-sawrus ei ffieidd-dra mawr.

Beth etto am y bobl, addolwyr Duw mewn ymddangosiad, sydd yn cnoi dybacco yn y cyssegr ac yn amboeri tra mae'r gwasanaeth yn myned yn mlaen? Ar y llawr gerllaw i ambell eisteddle hyd y nod yn nghyssegredigrwydd y côr mawr weithiau ceir llynwyn o boeri melynddu a dybacco yn gymmysg nes peri gorchwyd ar lawer un gwan ei gylla. Mae y fath fochyneidd-dra mewn tŷ addoliad yn annyodd-

efol. Mae glanhau'r lloriau erbyn y Sul canlynol yn orchwyl blin i'r sawl sydd yn gorfod ei wneuthur. Byddai glanhau tylcau moch yn waith mwy syber a naturiol! Pa fodd mae yspryd defosiwn yn gallu anadlu weithiau yn nghanol cymmaint o ansyberwyd! Dylid bod yn unllaw ac unllef yn erbyn arferiad mor aflan ac anweddaidd yn Nhŷ Dduw. Mae y rhai sydd yn ceisio addoli mewn prydferthwch santeiddrwydd yn cael eu haflonyddu gan ddynionach difoes o'r fath uchod.

Gallwn pe yn ewyllysio ysgrifenu llawer iawn yn rhagor ar bwnc y dybacco, ond dyma fi yn darfod ag ef. Yr wyf efallai wedi bod hytrach yn arw weithiau, ond cofier mai y testyn oedd un o arferion bryntaf yr oes. Byddai yn gyflawniad dyledswydd bwysig pe gwnai dynion o safle a dylanwad mewn cymdeithas ymgynghreirio i yru'r arferiad allan o'r wlad.

Mr. Gol.—Dymunwn ddywedyd wrth eich gohebydd "D. ab Ifan, Caerfyrddin" (gwel yr Ymofynydd am Ebrill diweddaf, tudalen 93), nad yw y rhai sydd yn "hoff o'u peint" yn cadw mwy o swn pan welant wyr y Rhuban Glas yn smocio, nâ phobl y Rhuban Glas pan welant ereill yn yfed. Nid oes dim gwahaniaeth rhwng y partïon yn hyn o beth. Gefeilliaid yw'r bib a'r peint, ac y maent yn dra hoff o'u gilydd fel gefeilliaid yn gyffredin. Digon gwir, pan ymunir â byddin y Blue Ribbon, nad oes son am ymwrthod â'r myglys; ond yr wyf yn myntumio y *dylid* ymwrthod ag ef er mwyn dyogelwch cyflawn. Gellid meddwl nad yw D. ab Ifan yn golygu bod dim yn *feddwol* mewn dybacco. Darllened yn mhellach ar y pwnc, a chaiff weled fod "*Tobacco-Smoking*," yn yr hen amseroedd yn cael ei alw yn "*Tobacco-drinking*," ac y dywedid fod dynion yn "*Smoke-drunk*." Mae perygl y gwna smocio arwain y smociwr i yfed, a dyna y rheswm pam y mynwn i'r Blue Ribbon, er mwyn bod yn hollol ddyogel, roi'r arferiad heibio. Y *mae'r* bib yn dwyn syched, ac y mae mor wir â hyny, lle mae ymchwiliad wedi cael ei wneyd, mai smocwyr yw y rhan amlaf o'r rhai sydd yn tori eu haddunedau (*pledges*). Hanner Blue Ribbon gan hyny, yn ol fy meddwl i, yw y dyn sydd yn methu byw heb y bib, am mai *hanner* dyogel yw o herwydd hyny yn ei broffes o lwyrymrthodiad. Yn olaf, dywed D. ab Ifan nad oes dim yn "*fwy atgas*" ganddo "nâ gweled bechgynach â phib yn eu penau;" y mae'r arferiad gan hyny mor atgas â *meddwi*. Yr wyf yn methu deall pa fodd mae D. ab Ifan, ac yntau yn "Blue Ribbon o'r iawn ryw," yn gallu bod yn euog o beth o'r fath.

Mr. Gol.—Gwelwch fod yn dda i hebgor congl o'ch Cyhoeddiad i fod yn gyfrwng trosglwyddiad o'r ychydig linellau canlynol i fy hen gyfaill mynwesol ar ochr y mynydd a eilw ei hun "Un yn 73 oed" yn y rhifyn am Ebrill diweddaf, tudalen 93. Ymddengys fod fy erthyglau ar dybacco yn groes i'w rân. 'Does dim i wneyd am hyny. Dywed fy mod "yn cael pleser mawr yn y *warehouse* a'i chyfrifon,"

ond dymunaf ddweyd wrtho mai y gwrthwyneb sydd wir. Dymunaf ddweyd hefyd fy mod yn gobeithio fod rhagor nag un o ferched gloywlan a chynnil Cymru yn derbyn yr Ymofynydd erbyn heddyw yn herwydd fy erthyglau ynddo yn erbyn dybacco. Mae fy nghyfaill, yr hwn sydd hefyd yn ddosparthwr yr Ymofynydd yn ei gymmydogaeth, yn dweyd fod y derbynwyr yn achwyn ar annyddordeb y pwnc wyf yn drafod, ac yn eu plith fod y siopwyr a'r tafarnwyr yn anfoddlon gweled dirmygu eu *goods* hwy. Digon gwir nad yw'r dybacco yn ddyddorol iawn ond i'r sawl sydd yn ei hoffi, a bod y cyfeillion sydd yn elwa oddiwrtho yn naturiol barod i waeddi "Mawr yw Diana yr Ephesiaid" pan yr ynganir gair yn ei erbyn. Ai er mwyn peidio digio'r siopwyr a'r tafarnwyr, y rhai o honynt ydynt dderbynwyr o'r Ymofynydd, y cais fy nghyfaill genyf i ysgrifenu ar ryw destyn arall a gadael y dybacco yn llonydd? Beth ddywed Mr. Jones am yr hyn a ganlyn? Yr oedd offeiriad o ryw ardal bellenig wedi cael ei wahodd i bregethu mewn pwlpud oedd yn dygwydd bod yn wag ryw Sul er ys tro yn ol. Yr oedd y gwr dyeithr yn cael gwely a bwyd dan gronglwyd un o brif aelodau yr Eglwys, yr hwn a ddymunodd arno i beidio dweyd dim yn ei bregeth yn erbyn y *Spiritualists* o herwydd fod llawer o honynt yn y dref, ac yn arfer dyfod i'r Eglwys, ac felly nad oedd dda eu digio. Wrth fyned i lawr yr heol cyfarfu yr offeiriad dyeithr ag un arall o oleuadau yr Eglwys, yr hwn a orchymynodd iddo i beidio pregethu dim a fyddai yn dramgwydd i'r *Universalists* am fod amryw o honynt yn cyrchu i'r Eglwys. Pan oedd yn esgyn grisiau'r pwlpud dyna un o'r diaconiaid yn neidio ato ac yn sisial yn ei glust—"Mae un o'r masnachwyr gwirod mwyaf yn y lle yma heddyw, a gobeithio y bydd i chwi ymgadw rhag dywedyd dim yn eich pregeth a fyddo'n cyffwrdd á'i alwedigaeth ef." "Wel," gofynodd yr offeiriad yn ei ddyryswch, "beth bregetha i ynte?" "O," meddai'r diacon, "golchwch ar yr Iuddewon, nid oes ganddynt un cyfaill yn y dref." Dywed fy hen gyfaill hefyd fod yn "haws adnabod egwyddorion dyn yn y tŷ tafarn nag mewn tŷ gweddi." Mae hyn yn ddywediad *smart* dros ben; ac ychwanegaf finau mai haws fyth eu hadnabod mewn carchar neu ar y grogbren. Fy nghofion cynhes at fy hen gyfaill twymgalon, ac at ei briod serchog Mrs. Jones.

T. S. Catti.

YR ESGOBION YN NHŶ YR ARGLWYDDI.

Er i'r Mesur a elwir y "Deceased Wife's Sister's Bill" basio yr ail ddarlleniad yn Nhŷ yr Arglwyddi, a thrwy hyny beri dysgwyliad cyffredin yn mhlith Rhyddfrydwyr, fod ei dynged, yn ol llaw, yn obeithiol, fe welodd yr esgobion y byddai yn annghyson á'u cymmeriad hwy i ganiatau hyny, a llwyddasant ei orchfygu a'i daflu allan ar y trydydd darlleniad. Beth da yw esgobion yn Nhŷ yr Arglwyddi os nid i geisio rhwystro a gorchfygu pob mesur sydd yn nghyfeiriad rhyddid a chwareu teg? Fel arfer maent wedi gwneuthur eu meddyliau i fyny

fod dyogelwch y deyrnas yn dybynu ar fod y mesur hwnw yn cael ei fwrw allan. Rhywbeth rhyfedd onid e, os bydd sefydlogrwydd y deyrnas mewn perygl o herwydd i'r llywodraeth ganiatau i ddyn gymmeryd chwaer ei wraig gyntaf yn ail wraig iddo? Rhyfedd y fath syniad y mae esgobion ac offeiriaid yn ei goleddu mewn perthynas i seiliau y deyrnas. Syniad naturiol dybygem ni fyddai hwn, na fyddai neb yn fwy addas i ofalu yn dyner am blant anddifaid na chwaer eu mam. Fel arfer y mae yr esgobion wedi dangos nad oes ganddynt yr un cymhwysder o gwbl at y gwaith o wneuthur deddfau'r wlad, ac y mae'n drueni na ryddheid hwy oddiwrth yr angenrheidrwydd o fynychu Tŷ yr Arglwyddi, fel y gallent aros gartre' gyda'u gwaith priodol. Nid yw eu presenoldeb yn y Tŷ ddim erioed wedi bod o un lles i'r wladwriaeth, ac oni bai eu pleidlais hwy buasai mwyafrif dros y mesur y tro hwn. Mae llais y wlad drosodd a throsodd wedi ei ddadgan yn Nhŷ y Cyffredin o blaid y mesur. Y gwir yw fod eisieu anfon yr ysgubell trwy Dŷ yr Arglwyddi er mwyn ei ddwyn i fwy o undeb â syniad a theimlad y wlad. Fel hyn y byddwn i yn awgrymu diwygiad: 1. Fod yr esgobion yn cael aros gartref i ofalu am eu defaid; 2. Fod yr arferiad o wneuthur dyn yn aelod o Dŷ yr Arglwyddi oblegyd fod ei dad yn aelod o'i flaen yn un afresymol; hyny yw, na ddylai dyn gael ei wneuthur yn aelod heb brofi ei gymhwysder. 3. Fod yr aelodau i gael eu dewis gan y Tŷ Cyffredin allan o aelodau y cyfryw Dŷ, ar ol o leiaf ddeng mlynedd o wasanaeth i brofi eu cymhwysder. Mae yn bosibl feallai fod Arglwydd Wolseley yn meddu cymhwysderau at fod yn aelod o'r Tŷ Uwchaf, ond pa sut y dichon neb ddywedyd dim etto am gymhwysderau mab Arglwydd Wolseley ac ynbau etto heb ei eni? Dyna'r egwyddor ar ba un y mae Tŷ yr Arglwyddi wedi ei gyfansoddi, ac nid rhyfedd felly ei fod yn fynych yn profi mor ddiffrwyth a diamcan yn ei waith. Trueni, meddaf fi, trafferthu yr esgobion i adael eu defaid, a gwyr ieuainc yr *aristocracy* i adael eu hysgyfarnogod a'u petris er presenoli eu hunain yn Nhŷ yr Arglwyddi i bleidleisio dros fesurau na wyddant feallai ond ychydig am danynt ac na theimlant ond llai fyth o ddyddordeb ynddynt.

Rad.

CYFARFODYDD BLYNYDDOL UNDODIAID Y DEHEUBARTH.

Cynnaliwyd yr uchod eleni yn Alltyplaca, Ceredigion, Mehefin yr 20fed a'r 21ain. Dechreuwyd y gwasanaeth trwy ddarllen a gweddio, am 6 o'r gloch prydnawn dydd Mercher, gan y Parch. J. Williams, Pontrhiw, a phregethwyd gan y Parchedigion Wm. Parry, Bridgend, ac R. C. Jones, Lampeter. Am 10 boreu dydd Iau, cyflawnwyd y rhanau defosiynol gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, a phregethodd y Parch. Wm. James, B.A., Llandyssul. Ar ol y bregeth cynnaliwyd cymmanfa agored er ymdrin â'r pwnc penuodedig, sef "Arwyddion yr Amserau mewn cyssylltiad a Duwinyddiaeth." Siaradwyd ar y pwnc gan

y Parchedigion R. J. Jones, M.A., Thos. Thomas, a D. Evans, B.A. Cydunwyd ar fod y Cyfarfod Chwarterol nesaf i gael ei gynnal yn y Nottais, a bod y Parch. R. C. Jones i bregethu. Pwnc y gynnadledd — "Eglwys y Dyfodol," y Parch. W. James i ddarllen papyr. Bydd y Cyfarfodydd Blynyddol nesaf i gael eu cynnal yn Llandyssul, y Parch. Thos. Thomas i bregethu. Am hanner awr wedi dau yn y prydnawn, dechreuwyd yr oedfa gan y Parch. Wm. Rees, a phregethwyd gan y brodyr R. J. Jones a J. Evans. Cafwyd hin ffafriol iawn i gynnal y cyfarfodydd, a bu aelodau eglwys benafol Alltyplaca ar eu goreu i dderbyn dyeithriaid yn rocsawus. Gwelsom lawer iawn o'n cymmydogion o enwadau ereill mor garedig i ni ag oedd modd. Derbynient ein diolchgarwch mwyaf diffuant. Rhoddodd y gwasanaeth o'r dechreu i'r diwedd foddlonrwydd mawr i'r rhan luosocaf o'r gwyddfodolion; a gobeithiwn yn fawr y bydd effeithiau daionus yn canlyn. Gwerthfawrogwn, gyfeillion, ein cyfleusderau. Nid oes gyda ni yn Sir Aberteifi achos mawr i gwyno fod y wlad wedi myned yn ddifater yn nghylch pethau crefyddol. Yr oedd y tyrfaoedd mawrion a ddaethant yn nghyd ar yr achlysur hwn yn brawf i'r gwrthwyneb. Ynfydrwydd yw dweyd fod crefydd wedi myned allan o arferiad. Nid ydyw; ac nid a byth. Y mae dyn wedi ei wneyd ar gyfer Duw a dyledswydd. Gofalwn ni gan hyny wneyd ein rhan yn ein dydd a'n tymhor.

J. D.

ANNGHYDFFURFIAETH YN NGHYMRU.*

Yr wyf am gyfeirio sylw darllenwyr Yr Ymofynydd, yn enwedig y rhai ieuainc o honynt, at argraffiad newydd o lyfr yr hynafgwr parchus a pharchedig Dr. Thomas Rees o Abertawe, ar y pwnc uchod. Mae dros ugain mlynedd er pan ymddangosodd yr argraffiad cyntaf, ac mae yr awdwr wedi cyflwyno ffrwyth ymchwiliadau yr ugain mlynedd hyny i'w hoff bwnc at berffeithio a chyflawnu y llyfr fel y mae yn cynnwys yn awr heblaw adgyweiriad o rai gwallau pwysig yn y cyntaf, ychwanegiad o ryw un rhan o dair at gynnwysiad hwnw, ac yn gwneuthur cyfrol hardd o dros 500 o dudalenau. Nid yw ond ychydig i ddywedyd nad oes yr un llyfr arall ar y pwnc i'w gymharu ag ef. Adroddir yr hanes mewn dull syml a dirodres, ac y mae mor ddyddorol ac adeiladol a dim a geir ar gyffelyb bwnc yn unrhyw wlad. Mae hyd y nod hen lyfrau Joshua Thomas a David Peter yn llawn o swyn a dyddordeb, ond y mae hwn yn llawer cyflawnach ac yn cynnwys

* History of Protestant Nonconformity in Wales, from its rise in 1633 to the present time. By Thomas Rees, D.D., Second Edition, revised and considerably enlarged. London, John Snow & Co., Ivy Lane, Paternoster Row, 1883.

ffrwyth ymchwiliadau deugain mlynedd i bob ffynnonell y gwyddai yr awdwr am dani, fel nad oes yn awr yr un esgus gan yr un dyn ieuanc yn Nghymru dros fod yn anwybodus o hanes crefydd ei wlad ei hunan. Da iawn, wrth gwrs, os gwyddant hanes crefydd a phroffwydi gwledydd ereill, ond ni wnaiff hyny i fyny am anwybodaeth o hanes eu gwlad eu hunain. Fobl ieuainc, at eich gwybodaeth o Socrates a Plato ac Aristotl, Confucius a Zoroaster a Lao Tse, y Gautama Bwda, Mohammed ac Abu Bekr, St. Awstin a Pelagius a Beda, Luther a Melanchthon, Zuinglius a Chalvin, Wycliff a John Knox, St. Patrick a St. Dewi, ychwanegwch enwau a hanes y duwiolion hunanymwadol a gyneuasant fflam crefydd ac a'i cadwasant yn nghyn yn Nghymru mewn oesoedd o dywyllwch a gorthrymder tost;—am John Penry, Pioneer Annghydffurfiaeth yn Nghymru, yr hwn a anwyd yn 1559, ac a dreuliodd ei fywyd byr yn ymdrechu taenu egwyddorion "efengyl (bur" meddai Dr. Rees) yn ol gorau ei wybodaeth a'i allu, ac a ddyoddefodd dros ei ffydd yn y carchar ac allan o'r carchar fel merthyr Duw, ac a fu farw, wedi ei osod i farwolaeth gan rai yn proffesu crefydd, yn 34 mlwydd oed, gan adael gweddw a phedwar o blant i alaru eu colled;—Y Ficer Prichard o Llanymddyfri (1579—1644), yr hwn a fu ffyddlon i'w alwedigaeth uchel, pan oedd bron pawb offeiriaid ereill wedi llwyr ymroddi at wasanaeth budr-elw neu rhyw felus-chwant o'r eiddynt eu hunain, gan esgeuluso eu dyledswydd priodol eu hunain; Wm. Wroth a Wm. Erbery, Walter Cradock a Vavasor Powell, a'r seintiau boreu ereill a wasanaethasant Grist yn ffyddlon yn eu dydd, gan wneuthur eu rhan i daenu y goleuni trwy gaddug y tywyllwch oedd y bugeiliaid proffesedig wedi ei adael i syrthio ar y praidd;—am sefydliad rhai o'r achosion crefyddol cyntaf, megys Llanfaches, Ilston ac Olchon;—am ddechreuad a dyoddefiadau y Crynwyr;—am rai o ddygwyddiadau torcalonus troad allan y 2000 yn 1662, a'r canlyniadau ar Annghydffurfiaeth yn Nghymru; am ddechreuad Methodistiaeth Calfinaidd, Arminiaeth, Ariaeth ac Undodiaeth. Dyma hanes a ddylai danio fflam gwladgarwch a chrefydd yn eich mynwesau, fobl ieuainc, a pheri i rai o honoch deimlo yn barod i lefain allan, O, na baem ni deilwng o ffyddlondeb a chlod y dewrion hyn! Yr ydym yn caru cynllun y gwaith, ac ystyriwn fod yr elfen fywgraffyddol yn gosod gwerth mawr arno.

Wrth roddi clod uchel i'r llyfr hwn, nid ydym am foment yn awgrymu nad oes arno frychau; nid yw mor gwbl rydd o wallau ag y gallasai fod, er nad yw y gwallau yma o bosibl yn bwysig; ac nid yw yr hanesydd fe ddichon bob amser yn gallu anghofio ei sect ei hunan. Annibynwr oedd y Doctor yn cyhoeddi ei argraffiad cyntaf, ac Annibynwr yw yn cyhoeddi yr ail, ac y mae yn rhwydd ddigon i weled hyny—meddai y Bedyddwyr. Mae yn rhy gynnar etto i ddysgwyl hanes Crefydd yn Nghymru tebyg i eiddo John James Tayler neu Brooke Herford ar grefydd yn Lloegr. Er hyny dymunwn longyfarch yr awdwr ar orpheniad gwaith sydd, nad beth ei ddiffygion, yn waith o werth arderchog a gogoneddus.

T. C. U.

Manion a Hanesion.

BWLCHYFADFA.—Prydnawn dydd Gwener, y 6fed cyfisol, mwynhaodd plant yr Ysgol Sul yn y lle uchod wledd ddanteithiol o dê a bara brith; ac ar yr achlysur gwobrwywyd nifer lucsog am eu cysondeb yn mynychu yr Ysgol Sybbothol drwy y flwyddyn a aeth heibio. Yn yr hwyr, cynaliwyd cyngherdd fawreddog. Llenwid y gadair gan y Cadben Davies, *Aurora*. Cynnorthwyid côr y lle gan *glee party* undebol Ceinewydd a Llanarth; a chwareuid ar y berdoneg gan Miss Thomas, Blaenwern. Cafwyd *solos* hefyd gan Mr. Evans, C.M., Pontshân; yr hwn, yn ol ei arfer, a ennillodd fanllefau o gymmeradwyaeth. Cyn terfynu, amlygodd y gynnulleidfa ei diolchgarwch gwresocaf i'r cyfeillion o Ceinewydd a Llanarth am eu cynnorthwy galluog, ac yn enwedig i Miss Thomas, Blaenwern, am ei gwasanaeth gwerthfawr drwy lywyddu ar y berdoneg. Afreidiol yw dweyd dim am fedrusrwydd Miss Thomas gyda'r offeryn swynol hwn, gan ei bod er's amser bellach wedi ennill poblogrwydd mawr mewn cyfarfodydd cyhoeddus o'r fath; digon yw sylwi fod yr *encores* ar ol y *piano solos* yn profi ei bod yn rhoddi y mwynhad mwyaf i'r dorf. Yr oedd yr elw tuag at adeiladu tŷ i gadw *hearse* newydd Capel y Fadfa, a bydd yn dda gan lawer gael ar ddeall fod llwyddiant y gyngherdd wedi bod y fath fel ag i gyfarfod yr holl draul.—*J. R. T. (o'r "Faner").*

CAERFYRDDIN.—Mae yr Ysgol Sul yma, yr hon a adgychwynwyd yn benaf trwy ddylanwad a than oruchwyliaeth Mr. R. Lambley, un o fyfyrwyr y Coleg, Tachwedd, 1882, mewn cyflwr tra gobeithiol. Cafwyd *picnic* yn ddiweddar yn Llanstephan, a gobeithio y bydd, gyda dylanwadau ereill, yn help i gadarnhau yr Ysgol. Dylai fod ysgol dda yn Nghaerfyrddin gyda'r lluaws myfyrwyr presenol yn y Coleg.

CWMBACH.—Dydd Llun, Gorphenaf 9fed, mwynhawyd gwledd gynnwysedig o dê a theisien, a bara ac ymenyn, yn yr Ysgoldy perthynol i'r Eglwys Undodaidd yn y lle hwn. Gan i'r hin droi allan mor hynod ffafriol, daeth yn nghyd luaws mawr o gyfeillion o Merthyr, Cefncoed, Dowlais, Heolyfelin, a manau ereill, nid yn unig i gyfranogi o'r wledd, ond hefyd i ddangos eu cydymdeimlad â'r cyfeillion yn y lle yn eu hymdrechiadau canmoladwy o blaid yr Ysgol Sul, at dreuliau yr hon y mae yr elw deilliedig i gael ei roddi. Diolch iddynt oll am eu caredigrwydd ymarferol. Yn yr hwyr, cynnaliwyd cyngherdd yn y Capel, o dan arweiniad medrus Mr. John Jones. Hefyd cymmerwyd rhan yn y cyfryw gan bobl garedig yr Hen-dy-Cwrdd, dan arweiniad Mr. Lewis Llewelyn. Traddodwyd areithiau byr, cynnwysfawr, a phwrpasol i'r amgylchiad, gan y Parchn. J. J. George, Thomas Lloyd Jones, Liverpool, ac ereill. Llywyddwyd gan Daniel David, Ysw., yn cael ei gynnorthwyo gan weinidog y lle. Buom bron annghofio dweyd fod yr Ysgoldy wedi cael ei addurno â llawer math o blanhigion a blodau amryliw yn ddestlus dros ben gan y *ladies* perthynol i'r lle, ac ni annghofiwyd diolch iddynt am hyny.—*G. Y. L.*

LLANDYSSUL.—Gwelir oddiwrth yr amlen fod y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain wedi addaw cyfranu y swm ardderchog o £44 at y Capel newydd. Arian gweddill y Jubilee Fund yw y £44 yma. Cychwynwyd y Drysorfa yma yn 1875 trwy ymdrechion aeddgar Mr. Spears, yr Ysgrifenydd blaenorol. Llwyddodd i gael tanysgrifiadau yn cyrhaedd i fyny i'r swm fawr o yn agos i naw mil o bunau. Amcan y Drysorfa oedd rhoddi cymhorth i adeiladu Capeli newyddion. Mae'r arian i gyd ar gael eu treulio erbyn hyn, ac yn ffodus llwyddodd Llandyssul i gael y rhelyw o £44. Yr ydym yn cyfrif fod oddeutu £600 o'r Drysorfa yma wedi eu cyfranu at adeiladu Capeli newyddion yn Nghymru. Onid teg, onid gonest fyddai i Eglwysi Undodaidd Cymru i wneyd rhyw gydnabyddiaeth am yr holl arian yma trwy wneyd casgliad blynyddol at y Gymdeithas?—*W. J.*

RHYDYPARC.—Cynnaliodd cynnulleidfa y lle uchod eu Cyfarfod Llenyddol am y tro cyntaf Mai 24, 1883. Llywyddwyd yn fedrus gan y Parch. — Davies (B.), Cwmfelin. Ar yr esgynlawr yr oedd yr Anrhyddeddus R. H. Powell, A.S., Maesgwyn; clywais fod yn bresenol yn mhlith y gwrandawyr y parchus foneddwr Mr. Edward James, U.H., Pontygrafel. Beirniad y Canu oedd Mr. G. R. Jones (Caradog); y Farddoniaeth a'r Adroddiadau, Mr. Rees Evans, Cwmbach, a darfu iddynt gyflawnu eu gwaith yn ardderchog. Cawsom ganu da—pawb ar eu heithaf er ceisio bod yn fuddugol. Wedi cael ton ar y Crwth gan Caradog, aeth pawb adref yn llawen.—*N. S.*

Y Wig.—Clywsom fod Ysgol Sul y lle wedi cael *picnic* Gorph. 9. Ni chawsom fanylion. Carem fod ein cyfeillion yn helpu yr Ymofynydd i gofnodi symmudiadau yr Enwad.

Addaswch eich hun at ryw un peth yn fwy nag yr ydych yn ei wneuthur yn awr. —*Garfield.*

Ceir yn New York 15 mil o "grog-shops," neu un at bob cant o'r trigolion.

Yr ydym wedi clywed fod llawysgrifau y Parch. W. Thomas, M.A., Llandyssul, wedi eu dodi yn llaw y Parch. W. James, B.A., Llandyssul, gyda bwriad i drefnu ac argraffu y rhai a welo efe yn addas.

Marwgofion.

Mai 4, yn 64 oed, Sarah Davies, Newgate, ger Llwynrhydowen. Bu farw ar ol hir gystudd yn nhŷ ei chwaer Heol y Ffynnon, Llandyssul, a chladdwyd yn mynwent y plwyf y Llun canlynol, pryd y gweinyddodd y Parch. W. James yn y tŷ. Bu yr ymadawedig, fel ei chwaer o'i blaen, yn ddrysores capeli Llwynrhydowen am flynyddoedd lawer, ac yn y cylch hwnw yn gystal ag mewn cyssylltiadau ereill gwerthfawrogid ei ffyddlondeb a'r rhinweddau amlwg a addurnent ei chymmeriad.

Mai 5, yn 64 oed, bu farw Hannah, priod John Jones, Ty'ncelyn, Llanwnen. Claddwyd hi y dydd Iau canlynol yn Llanwnen. Pregethodd y Parch. T.T. yn y tŷ annedd. Gadawodd yr ymadawedig bump o blant, oll wedi tyfu fyny, i alaru ar ei hol. Mae dwy o'r merched yn Llundain, un mab yn America, a dau gerllaw cartref. Mae ei gwr ar ol, ac er ys amser maith yn analluog i ddim braidd. Ymgysured yn y meddwl mai nid hir y bydd cyn cael rhoi ei faich i lawr a myned ar ol yr un sydd wedi blaenu.

Mai 16, ar ol cystudd byr ond trwm, bu farw Thomas, mab John a Mary Edwards, Pantstrymor, Llandyssul, yn 8 oed. Claddwyd yr un bychan y dydd Sadwrn canlynol yn Pantdefaid, a phregethodd y Parch. T.T. ar yr achlysur. Yr oedd yr ymadawedig yn blentyn gwrol a gobeithiol, ond gwywodd yn ddisymwth. Ymwroled ei dad a'i fam alarus yn eu hamddifadrwydd.

Mai 24, yn 3 mlwydd oed, John, plentyn y diweddar Thomas Davies a Mary Davies, Hen-dy, Pwllffine, Llandyssul. Claddwyd ef yn Pantdefaid y Sadwrn canlynol—dau fis cywir wedi marwolaeth ei dad, a phregethodd y Parch. T.T. yn y Capel.

Mai 29, ar ol hir nychdod, yn 74 mlwydd oed, Mr. John Daniel Jones, gof, 3, Field Street, Rhymni. Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o Ddyffryn Clettwr, ac ail fab i'r diweddar Daniel yr Ysgubor, fel ei gelwid. Brawd iddo yw Mr. Evan Jones, Gwehydd, a dosparthwr yr Ymofynydd yn Nghaerfyrddin; ei chwiorydd yw Mrs. John Thomas, Factory, Crug-yr-eryr, Talgarreg, a Mrs. David Thomas, Parkyclochydd, Llanwenog. Yr ydoedd yn ddarllenwr cyson o'r Ymofynydd; ac yn hanu o hen deulu parchus ac Undodaidd. Claddwyd yn mynwent Eglwys Rhymni.

Mehefin 7, yn 14 wythnos oed, bu farw Thomas, yr ail o blant y diweddar Thomas Davies a Mary Davies, Hen-dy, Pwllffine, Llandyssul. Claddwyd ef yn Pantdefaid y dydd Sadwrn canlynol—deg wythnos cywir wedi marwolaeth ei dad. Pregethodd y Parch. T.T. ar yr achlysur. O'r teulu hwn nid oes ond dau ar ol—y weddw a'r plentyn hynaf.

Mehefin 23, gorphenodd ein hen gyfaill John Morgans, Trebanos, ei yrfa ddaearol, yn 75 mlwydd oed. Bu yn aelod o gynnulleidfa Undodaidd Gellionen am flynyddau lawer, a gwnaeth a allodd er hwylysu yr achos yn y lle. Hen wr difyrus, difalch, didwyll a chariadus oedd efe. Y dydd Mawrth canlynol rhoddwyd y pridd i'r pridd yn Mynwent henafol Gellionen, yn unol â'r drefn arferol. Efe a "aeth mewn henaint i'r pridd, fel y cyfyd ysgafn o ŷd yn ei amser."—*D. W. Davies.*

Mehefin 26, yn 74 oed, John Jones, Baili, Llandyssul, un o hen aelodau mwyaf ffyddlon Eglwys Llwynrhydowen. Er yn byw bellder mawr oddiwrth y capel, yr oedd bob amser, tra y parhaodd ei iechyd, i'w weled yn ei le yn yr addoliad ar foreu Sul. Tystiai yr orymdaith barchus a lluosog a hebryngodd yr hyn oedd farwol o hono i'r bedd yn mynwent Tregroes y dydd Iau canlynol, fod y gymmydogaeth a'r ardal wedi colli un o'i phreswylwyr goreu a

mwyaf defnyddiol. Gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parchn. Thomas Thomas a W. James, ac yn yr Eglwys gan y ficer—y Parch. W. G. Jenkins.

Mehefin 29, John Phillips, is-olygydd yr *Unitarian Herald* am 20 mlynedd, ac am flynyddau awdwr yr *Unitarian Almanac*, yn 65 oed.

Gorphenaf 5, yn 40 oed, ar enedigaeth plentyn, Mrs. Sarah Jones, Hendryd, ger Llanbedr. Gadawodd yr ymadawedig briod a naw o blant, yn nghyd â pherthynasau ereill, i alaru ar ei hol. Mor bell ag y gall llygad o gnawd weled, colled anadferadwy, yn y byd hwn, i briod a phlant ydyw colli mam dyner a gofalus tra'r plant heb hanner eu magu. Ond hyderwn y ca'r priod a phob un o'r plant y sydd yn gallu deall yr hyn sydd wedi cymmeryd lle fodd i ymdawelu, gan geisio troi'r weinidogaeth chwerw yn fantais iddynt eu hunain yn y pen draw. Mae llawer o ffyrdd y Goruchaf i ni etto'n ddyrys ac anesponiadwy, ond yr ydym yn dysgwyl am ddydd yr esponio cyn hir, a chawn ddeall fod ei holl ffyrdd yn uniawn. Yr oedd y dorf luosog a ddaeth yn nghyd ar ddydd yr angladd, y Sadwrn canlynol, nid yn unig yn dangos fod gan y gymmydogaeth barch mawr i'r teulu, ond dangosai hefyd gydymdeimlad â'r galarwyr yn eu trallod. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. R. C. Jones, a chymmerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. T. Thomas, Jno. Davies, a Thomas Thomas, Llanfair. Claddwyd yn mynwent Caeronen.

Gorphenaf 6, yn 86 mlwydd, Evan Jacob Thomas, gwehydd, o'r Cwrtnewydd, Sir Aberteifi. Dyn a fwynhaodd iechyd da ar hyd ei oes faith. Collasai ei olygon naturiol er's rhai blynyddau, ond derbyniodd hyny yn ddirwgnach; yn hytrach teimlai'n ddiolchgar ei fod wedi cael cadw cymmaint ag oedd dros yspaid mor faith. Ymddangosai holl gynneddfau ei enaid mor ddysglaer hyd y diwedd ag y buont erioed. Cymmerai ddyddordeb mawr yn holl symmudiadau gwladol ac eglwysig ei wlad a'i gymmydogaeth yn awr fel cynt; ond yn y diwedd pallodd yr hen beiriant a gweinyddu iddo, fel y gorfu arno adael ei dabernacl daearol a myned i breswylio i fyd yr ysprydoedd. Claddwyd ei weddillion marwol yn ngladdfa newydd Capel-y-bryn y Llun canlynol, pan yr anerchwyd tyrfa fawr ar yr achlysur gan weinidog y lle. Heddwch i lwch yr hen frawd, a nawdd Duw a'i dangnef i'w briod oedranus a'i blant galarus.—*J. D.*

Bu farw chwaer i Dr. Pusey yn ddiweddar. Nid oedd ganddi ddim cydymdeimlad â syniadau crefyddol ei brawd, ac arferai ddywedyd, "Yr wyf yn Pusey ond nid yn Puseyad."

MARWOLAETH

Ehedydd Nantysaer, Mai 29ain, yn 33 mlwydd oed.

Ein Ehedydd aeth ar ei aden,—fry
Drwy froydd ffurfafen;
A charola uwch yr haulwen,
Yn ddidaw yn y wynfa wen.
Llandebie. RHYDDERCH FARFGOCH.

O! cantawr pêr y cyntedd,—arweinydd,
Gwir anwyl pob rhinwedd;
Er ei fod yn ei oer fedd,
Ni *rwda* ei anrhydedd.
TEILO.

Ein 'Hedydd, awenydd anwyl—ehedodd
O'n byd i'r nef breswyl:
Dydd hiraeth fu dydd ei arwyl,
Dydd cuddio perchen awen wyl.
IOAN ARLWYDD.

'Hedydd, awenfardd hudawl—fu farw
Yn foreu—wr nerthawl;
Gwysiwyd ef drwy'r pyrth nefawl
I roi i Ner fwynber fawl.

O fywyd gwael i fyd gwyn—o'i adwyth
Ehedodd o'i blisgyn;
Canai'n bêr fel nef aderyn,
I Ior ei glod yn nw'r y glyn.

I'w wech wobrwy uwch wybren,
Dringai'n bardd drwy angau'n ben!
ERYR GLYN COTHI.

Ein 'Hedydd eneidiol,—bu arab wr;
Bu yn fardd gorchestol;
Heddyw rhwyg sydd ar ei ol,
Yn fy enaid cwynfanol.

Y bardd-gerub wr ddiguro,—er marw
Mae'n llefaru etto;
Yn wyrdd y ceir yn ardd y co',
Ei awen yn blodeuo.

I fywyd gwell, i fyd y gân—o'i ing,
Aeth yn angel purlan;
I ogonedd nef Ganaan,
I foli Duw mewn nefawl dân!
DYFFRYNFARDD.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &C., ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau.—D.R., Yr Iscae ; H.M., Gellionen ; D.T., Ochr y Rhos. D.S.—Sylwer fod taliad yn ddyledus gyda'r rhifyn presenol. Carem fod pawb yn gwneuthur eu rhan fel y gellir cael y taliadau i mewn yn brydlawn. Drwg genym fod yr ol-ddyledion hytrach yn cynnyddu, nid arwydd dda yw hyn. Mae arnom hefyd eisieu cynnyddu ein dosparthwyr a'n derbynwyr, neu y mae lle i ofni rhywbeth tua diwedd y flwyddyn.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach na'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau :—Pris 3c., trwy'r post 3½c. ; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Ivy Cottage,
ABERDARE.

EMYNAU MAWL A GWEDDI.

Mae yr ail argraffiad yn mron bod yn barod. Ei bris, 2s. mewn papur, 2s. 6c. mewn llian. Anfonir ef yn rhydd trwy y post am y prisoedd hyn.

CAPEL NEWYDD LLANDYSSUL.

Derbynir y rhodd leiaf at yr achos uchod, a chydnabyddir yn ddiolchgar ar yr amlen hon gan yr Ysgrifenydd—*Rev. W. James, B.A., Cerdin Villa, Llandyssul, S. Wales.*

Tanysgrifiwyd a sicrhawyd eisoes.

	£	s.	c.
Cydnabyddwyd eisoes.. ..	384	15	0
J. Jenkins, Rhydybene Cribin	1	0	0
Mrs. Jenkins, do.	1	0	0
Dd. Jones, Crugymaen, Llanwenog	0	10	0
Parch. Jno. Davies, Alltyplaca	1	1	0
,, R. C. Jones, Llanbedr	1	1	0
Evan Thomas, Pen'rallt, Llandyssul	1	0	0
British and Foreign Unitarian Association	44	0	0
Elinor Jones, Clifton Hill, Llandyssul..	0	3	0
Sarah Jones, do.	0	3	0
William Jones, do. esto ..	0	3	0
Dd. Morgan, Camr ar, Llandyssul .. an[illegible]ant, ...	0	5	0

W. JAMES, Ysgrifenydd.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDOD[illegible]DD YN NGHYMRU.

Mae genym un dyn ieuanc yn parotoi i'r weinidogaeth yn awr, a rhy fach o arian mewn llaw i gyfarfod â'r taliad nesaf. Nid yw y gofyn ar ran un ddim yn llawer, pe gwnelai pob cynnulleidfa ychydig. Da chwi, gyfeillion, rhowch help llaw un waith etto. Anfoner at y Golygydd.